

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 56/2013



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Dysgu i Wella: Astudiaeth Achos - Partneriaeth Caerdydd



Dysgu i Wella: Astudiaeth achos – Partneriaeth Caerdydd

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

John Broomfield

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02920 801193

E-bost: John.Broomfield@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-1-4734-0127-3

© Hawlfraint y Goron 2013

Contents

1. **Background**..... Error! Bookmark not defined.
Learning from Cardiff as a case study Error! Bookmark not defined.
Developing integrated partnership working in Cardiff...Error! Bookmark not defined.
2. **Getting to *What Matters***..... Error! Bookmark not defined.
What worked and why?..... Error! Bookmark not defined.
Building blocks..... Error! Bookmark not defined.
New ways of working Error! Bookmark not defined.
3. ***What Matters* in practice** Error! Bookmark not defined.
***What Matters* is what matters**..... Error! Bookmark not defined.
Influencing other strategies and plans..... Error! Bookmark not defined.
Embedding partnership working as ‘the norm’ Error! Bookmark not defined.
4. **Next Steps for Cardiff**..... Error! Bookmark not defined.
Communicating success Error! Bookmark not defined.
Performance management Error! Bookmark not defined.
Informing commissioning..... Error! Bookmark not defined.
Sharing learning with Welsh Government Error! Bookmark not defined.
5. **TOP TIPS for Partnerships in Wales** Error! Bookmark not defined.

1. Cefndir

Dysgu gan Gaerdydd fel astudiaeth achos

- 1.1. Mae Llywodraeth Cymru yn annog cydweithio ymysg awdurdodau lleol – rhwng awdurdodau lleol a rhwng awdurdodau lleol a'u sefydliadau partner - fel dewis arall yn lle ad-drefnu a dull o hwyluso gwasanaethau cost effeithiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o safbwynt y defnyddiwr a'r dinesydd. Yn sgil ymgynghoriad yn ystod hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cydamcanu / Cydymdrechu ym mis Gorffennaf 2012¹ fel arweiniad i awdurdodau lleol a'u partneriaid, drwy Fyrddau Gwasanaeth Lleol, ar integreiddio cynlluniau a phartneriaethau er mwyn darparu dull gweithredu mwy cydlynol a strategol i flaenoriaethu a chyflawni canlyniadau.
- 1.2. I ategu'r defnydd o'r arweiniad hwn, awgrymodd Llywodraeth Cymru y gallai partneriaethau ac awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ddysgu o brofiad Caerdydd ers 2011 o lunio Strategaeth Beth sy'n Bwysig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth mewn ffordd integredig er mwyn cyflawni'r canlyniadau a rennir sydd wrth wraidd y strategaeth. Er bod awdurdodau eraill wedi dechrau cyfuno cynlluniau gwasanaeth statudol a chynlluniau gwasanaeth eraill mewn un ddogfen unigol cyn cyflwyno'r arweiniad diweddar, Caerdydd oedd yr unig un i fynd ati mewn ffordd integredig i lunio cynllun sengl, gyda chefnogaeth cytundeb Llywodraeth Cymru i lacio'r gofynion statudol ar gyfer cynlluniau unigol.
- 1.3. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Shared Intelligence lunio astudiaeth achos o brofiad Caerdydd er mwyn casglu a chofnodi'r hyn a ddysgwyd o Beth sy'n Bwysig a sefydlu Bwrdd Partneriaeth Caerdydd ar gyfer Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol ehangach yng Nghymru a Byrddau Gwasanaethau Lleol. Ar hyn o bryd mae Shared Intelligence yn gweithio gydag Ysgol Fusnes Caerdydd ar ran Llywodraeth Cymru ar 'Dysgu i Wella' sef gwerthusiad pedair blynedd o Bolisiâu Llywodraeth Leol yng Nghymru. Un o'r tair thema sy'n cael ei harchwilio fel rhan o hyn yw 'cydweithio' drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol, yn ogystal â mewn cymdogaethau neu froydd drwy Cymunedau yn Gyntaf a thrwy gydweithio rhwng awdurdodau.
- 1.4. Mae'r astudiaeth achos hon o Gaerdydd yn cael ei chynnal fel rhan o'r comisiwn Dysgu i Wella, er nad yw'n rhan o'r gwerthusiad hwn, ac nid yw'n werthusiad o Fwrdd Partneriaeth Caerdydd chwaith. Mae'n cael ei hwyluso fel 'Astudiaeth Achos er mwyn Dysgu' at y dibenion penodol uchod.² Mae'r hyn a ddysgwyd gan Gaerdydd yn deillio o'r canlynol:
 - Dadansoddiad dogfennol o Strategaeth Beth sy'n Bwysig a deunyddiau perthnasol eraill;

¹ <http://wales.gov.uk/docs/dpsp/publications/120619sharepurpdeliveryen.pdf>

² Mae'r astudiaeth Dysgu Gwella yn cynnwys samplau ar wahân o astudiaethau achos ymchwil sy'n cael eu defnyddio fel sail ar gyfer canfyddiadau cyffredinol yr astudiaeth, casgliadau ac argymhellion a gaiff eu cyhoeddi yn yr adroddiad terfynol a fydd yn ymddangos yn hwyrach ymlaen eleni.

- Cyfarfod ag Arweinydd Tîm y Bartneriaeth;
- Gweithdy ar ffurf grŵp ffocws gydag aelodau o Grŵp Gweithrediadau'r Bartneriaeth;
- Cyfweiliadau gyda phum rheolwr uwch o sefydliadau partner; a
- Cyfweiliad â swyddog uwch yn Llywodraeth Cymru.

1.5. Dyma'r prif gwestiynau oedd yn sail i'r astudiaeth achos:

- Beth wnaeth weithio'n dda (a beth wnaeth ddim gweithio cystal) a pham - o ran y broses o lunio'r strategaeth Beth sy'n Bwysig a sefydlu mecanweithiau newydd ar gyfer cyflwyno drwy bartneriaeth integredig?
- Pa lwyddiannau cynnar sydd wedi deillio o Beth sy'n Bwysig a'r model partneriaeth integredig?
- Beth oedd yr heriau a'r cyfyngiadau o ran rhoi cyflawni drwy bartneriaeth integredig ar waith? Sut yr aethpwyd i'r afael â'r rhain?
- Beth all Caerdydd ddysgu o hyn?
- Beth yw'r awgrymiadau mwyaf defnyddiol y gellir eu rhoi i awdurdodau lleol/Byrddau Gwasanaethau Lleol mewn ardaloedd eraill yng Nghymru sydd am roi proses debyg ar waith?

Datblygu gwaith partneriaeth integredig yng Nghaerdydd

- 1.6. Dangosodd arolwg gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Caerdydd yn 2008 fod strwythur partneriaeth cymhleth wedi datblygu yn y ddinas. Roedd dros 118 o 'grwpiau partneriaeth' yn bodoli gydag oddeutu 560 o unigolion yn ymwneud â nhw. Roedd y darn hwn o waith wedi gweithredu fel ysgogydd i ailgyfeirio ffocws gweithgareddau partneriaeth tuag at set gydlynol o ganlyniadau a rennir.
- 1.7. Cytunodd y partneriaid i lunio un strategaeth bartneriaeth integredig ar gyfer y ddinas. Byddai'r strategaeth deng mlynedd hon – a ddaeth yn adnabyddus fel Beth sy'n Bwysig³ – yn disodli cynlluniau statudol blaenorol pob partneriaeth oedd yn bodoli ar y pryd⁴.
- 1.8. Er bod y partneriaid wedi cytuno i gyflwyno gweledigaeth ar y cyd i Gaerdydd yn y Strategaeth Gymunedol flaenorol, roedd cysoni adnoddau ar draws partneriaethau a sefydliadau er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon yn golygu newid mawr o ran integreiddio.
- 1.9. Dechreuodd y broses mewn gweithdy ym mis Tachwedd 2009 pan gytunodd y partneriaid ar y canlyniadau strategol allweddol 'i

³ For the strategy and further background information see: *What Matters 2010 – 2020 - The 10 Year Strategy for Cardiff*.

⁴ Roedd y cynlluniau statudol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r tair partneriaeth statudol yn cynnwys y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Cynllun Gweithredu ar Ddiogelwch Cymunedol.

- 1.10. ddinasyddion' a fyddai, drwy gael sefydliadau yn cydweithio â'i gilydd, yn gwireddu'r weledigaeth. Sef:

Beth sy'n Bwysig – Y Saith Canlyniad a Rennir

1. Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach
2. Mae gan bobl yng Nghaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy
3. Mae pobl yng Nghaerdydd yn ddiogel, ac yn teimlo'n ddiogel.
4. Mae gan Gaerdydd economi ffyniannus a llewyrchus.
5. Mae pobl Caerdydd yn gwireddu eu llawn botensial
6. Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, i weithio ac i chware ynddo.
7. Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol.

- 1.1. Cytunodd y partneriaid i gysoni pob gweithgaredd â'r canlyniadau hyn i ddinasyddion. Daethant at ei gilydd eto ym mis Ebrill 2010 i ystyried y tueddiadau tymor hir yng Nghaerdydd, i gytuno ar fframwaith cynllunio ar gyfer y strategaeth ac ar strwythur ar gyfer yr 'asesiad o anghenion' lleol. Mae cyflawni gweithredol, sy'n seiliedig ar anghenion lleol, yn llywio Cynlluniau Gweithredu Cymdogaethau, a luniwyd gan chwe Thîm Rheoli Cymdogaeth Caerdydd.
- 1.2. I ysgogi darpariaeth effeithiol a sicrhau atebolrwydd, cytunodd partneriaid i ddefnyddio methodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau fel fframwaith rheoli perfformiad cadarn ar draws y bartneriaeth gyfan.
- 1.3. Cynhaliodd y partneriaid ymgynghoriadau helaeth gyda phobl Caerdydd drwy amryfal gyfryngau. Roedd hyn yn dangos cefnogaeth gref i'r blaenoriaethau ar gyfer y ddinas i gyd, ac yn tynnu sylw at yr ystyriaethau o bwys ym mhob ardal ar yr un pryd.
- 1.4. Yn sgil llunio Strategaeth Bartneriaeth Integredig ddrafft erbyn hydref 2010, cytunodd y partneriaid i archwilio'r posibiliadau o ran llunio model cyflawni newydd ar gyfer y bartneriaeth gan gynnwys creu un Bwrdd Partneriaeth sengl i Gaerdydd, wedi'i ategu gan dîm cefnogi integredig ar gyfer y bartneriaeth.
- 1.5. Sefydlwyd y model newydd ym mis Hydref 2011. Ers hynny, gyda chefnogaeth y tîm partneriaeth, mae'r Bwrdd wedi bod yn mynd ati i sicrhau bod y strategaeth yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus drwy i bartneriaid wreiddio'r saith canlyniad yn eu gweithgareddau prif ffrwd a'u cynlluniau busnes.
- 1.6. Eir i'r afael â materion sydd o bwys i'r cymdogaethau drwy chwe Thîm Rheoli Cymdogaeth amlasiantaeth Caerdydd sydd wedi llunio eu

cynlluniau gweithredu eu hunain mewn ymateb i flaenoriaethau lleol. Cyfrifoldeb nifer o ffrydiau gwaith sy'n adlewyrchu'r prif ystyriaethau yw materion sy'n berthnasol i'r ddinas i gyd ac mae'r rhain yn seiliedig ar asesiad o anghenion, materion statudol 'y mae'n rhaid eu gwneud', ac ymgysylltu â'r gymuned – fel y cytunwyd gan Fwrdd Partneriaeth Caerdydd. Caiff pob ffrwd gwaith ei harwain gan uwch reolwr o un o'r sefydliadau partner. Atodwyd rhestr o ffrydiau gwaith sydd â blaenoriaeth, ynghyd â model partneriaeth sy'n dangos atebolrwydd drwy strwythurau llywodraethu ac adrodd y Partneriaethau, enghraifft o agenda Bwrdd Partneriaeth ac enghraifft o adroddiad ar y prif bwyntiau, fel y defnyddir ar gyfer pob ffrwd waith.

2. Canfod Beth sy'n Bwysig

Beth oedd wedi gweithio a pham?


- 2.1. Nid ar chwarae bach y lluniwyd Beth sy'n Bwysig: Y Strategaeth 10 Mlynedd ar gyfer Caerdydd – drwy waith partneriaeth integredig. Felly beth wnaeth y gwahaniaeth o ran cyflawni hyn? Pa amodau oedd angen eu sefydlu? Sut y bu'n rhaid i'r partneriaid weithio gyda'i gilydd i gyrraedd y cam hwn?
- 2.2. Daeth rhai themâu cyffredin ynglŷn â beth oedd wedi gweithio'n dda (a beth oedd ddim wedi gweithio cystal) a pham i'r amlwg wrth weithio tuag at y sefyllfa bresennol yn sgil y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau unigol a gynhaliwyd â chynrychiolwyr o'r cyngor a sefydliadau partner a fu'n ymwneud â datblygu gwaith partneriaeth integredig a Beth sy'n Bwysig.
- 2.3. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddysgu am y broses o symud o nifer fawr o bartneriaethau yng Nghaerdydd oedd yn cael eu hystyried fel grwpiau oedd a'u 'hagenda eu hunain' ac a oedd yn aml yn 'gweithio mewn seilos', i bartneriaeth integredig gyda nifer o ganlyniadau cyffredin.
- 2.4. Nid yn unig yr oedd y partneriaethau gwreiddiol yn eithaf penodol o ran eu diddordebau a'u gweithgareddau; roeddynt hefyd yn tueddu i ganolbwyntio ar feithrin perthynas a rhannu gwybodaeth. Er bod hyn yn gadarnhaol, gallai hyn olygu bod y partneriaethau yn aros yn eu hunfan oherwydd bod hynny'n rhwydd yn hytrach na symud ymlaen i ddatrys problemau, gwneud penderfyniadau a chomisiynu er mwyn 'gwneud i bethau ddigwydd' drwy gyflawni ar eu canlyniadau.
- 2.5. Mae'r trawsnewid a ddigwyddodd wedi dibynnu ar ddau grŵp o ffactorau. Yn gyntaf rhoddwyd nifer o 'flociau adeiladu' yn eu lle fel sylfaen ar gyfer y broses o newid. Mae'r rhain yn cynnwys: gweledigaeth gyffredin, arweiniad, dadansoddiad o anghenion ac ymwneud gweithgar ar ran yr holl sefydliadau partner.
- 2.6. Yn ail, bu'r bartneriaeth yn gweithio mewn ffordd oedd yn gydnaws â newid. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys partneriaid yn bod yn

agored â'i gilydd, parodrwydd i gymryd risgiau, cyflwyno atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau a'r ffordd yr aeth tîm y bartneriaeth ati i gyflawni ei rôl.

- 2.7. Mae crynodeb o hyn yn y diagram isod ac yna eir ati i'w harchwilio'n fanylach fesul un. Oni nodir yn wahanol, mae'r dyfyniadau a ddefnyddir i egluro'r testun i gyd yn deillio o'r gweithdy grŵp ffocws gyda'r Grŵp Gweithrediadau a oedd yn cynnwys aelodau o staff o dîm y bartneriaeth ac uwch reolwyr o'r cyngor, y GIG, a'r sector gwirfoddol, ac roedd pob un ohonynt wedi chwarae rhan weithgar yn y gwaith o lunio Beth sy'n Bwysig.



BETH SY'N BWYSIG – CANLYNIADAU A RENNIR			
Cydweithio mewn iaith gyffredin	Y parodrwydd i ysgogi newid	Atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau	Cyfathrebu clir a hwylus
Arweiniad ar bob lefel	Dadansoddiad o anghenion ar y cyd	Cyfrannu gweithredol ar ran yr holl bartneriaid	Tîm partneriaeth i gefnogi a chyfathrebu
GWELEDIGAETH AR GYFER GWAITH PARTNERIAETH INTEGREDIG			



Blochau adeiladu

Arweiniad ar bob lefel

- 2.1. Roedd gwneud cynnydd tuag at *Beth sy'n Bwysig* yn dibynnu ar arweiniad ar wahanol lefelau y cyngor – ac yn y sefydliadau partner. Gelwir hyn weithiau yn arweinyddiaeth wasgaredig ac mae'n arbennig o bwysig yng nghyswllt prosesau newid – mae angen iddynt ddylanwadu ar strategaeth a gweithrediadau fel ei gilydd. Os yw'n effeithiol, bydd arweinyddiaeth wasgaredig yn effeithio ar staff ar draws sefydliadau partner.
 - 2.2. Cytunir yn eang mai tîm partneriaeth cryf, dan arweiniad y Rheolwr Gweithredol, Partneriaethau a Chanolbwyntio ar y Dinesydd, oedd y sbardun y tu ôl i'r broses gyffredinol. Rhaid wrth unigolyn penodedig a thîm cefnogi sydd â'r ymrwymiad a'r gallu i sbarduno newid, er nad yw llunwyr polisïau bob amser yn cydnabod hyn – efallai oherwydd nad yw'n hawdd dylanwadu ar hyn na'i orfodi.
 - 2.3. Ar lefel uwch, elfen allweddol o ran llwyddo yn y cyswllt hwn yw'r gefnogaeth a gafwyd gan y Prif Swyddog Corfforaethol (Cymunedau) yn y Cyngor a Chyfarwyddwr Gweithredol lechyd y Cyhoedd Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Roedd y rôl 'hyrwyddo' hon yn hanfodol wrth arwain y gwaith o newid y ffordd o feddwl ar lefel gorfforaethol, cael dealltwriaeth a chefnogaeth timau rheolwyr uwch yn y Cyngor a'i bartneriaid statudol, a chysylltu amcanion Bwrdd Partneriaeth Caerdydd â rhai Rheoli Cymdogaethau - dull o gyflawni canlyniadau a rennir 'ar lawr gwlad'.
- 'Roedd Rheoli Cymdogaethau yn llwybr gweithredol at sefydliadau - nid oedd angen swyddogion arbenigol ac mae'n rhoi'r gallu i bobl gyflawni'*
- 2.4. Roedd arweiniad gan Brif Weithredwr y cyngor yn hanfodol er mwyn tanlinellu'r ymrwymiad corfforaethol hwn fel blaenoriaeth ar gyfer y cyngor ac i sicrhau cefnogaeth partneriaethau a gwasanaethau statudol eraill. Mewn rhai achosion roedd hyn ar sail 'dim dewis'; roedd disgwyl i bobl gyfranogi yn y dull partneriaeth integredig erbyn dyddiad penodol ac nid oedd hyn yn wirfoddol.

- 2.5. Yn olaf, mae arweiniad gwleidyddol wedi bod yn bwysig. Roedd Rheolwr y Bartneriaeth wedi gallu cydweithio'n agos ag Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor ⁵ a oedd yn hapus i ddatblygu'r dull partneriaeth integredig

Dadansoddiad o Anghenion

Roedd dealltwriaeth gyffredin o'r heriau y mae Caerdydd yn eu hwynebu yn gam pwysig tuag at flaenoriaethu canlyniadau a deall y cyfraniad y gallai gwasanaethau a sefydliadau gwahanol ei wneud o ran sicrhau'r canlyniadau hyn.

'Roedd y gwahaniaethau o ran disgwyliad oes ar draws Caerdydd yn bwysig – cyflwynwyd y rhain ar ôl cynnal asesiad o anghenion integredig – a esgorodd ar 'fflach o ysbrydoliaeth' wrth i bartneriaid allu ymrwymo i ganlyniadau a rennir' (OG)

- 2.6. Mae'r Tîm Partneriaeth yn pwysleisio, er nad oedd yr asesiad o anghenion bob amser mor gynhwysfawr ag yr hoffai, roedd yn ddigon da i helpu pobl ganolbwyntio ar dystiolaeth a gwybodaeth. Rhoddodd hyn gyd-ddealltwriaeth wrthrychol o'r sefyllfa bresennol o ran canlyniadau trosedd neu iechyd a sut y mae'r rhain yn amrywio ar draws y ddinas.

"Roedd pobl yn gytûn yng nghyswllt anghydraddoldeb. Roeddynt yn gweld ymhle a sut y gallent ychwanegu gwerth' (Uwch Reolwr, GIG)

- 2.7. Roedd y dadansoddiad o anghenion hefyd wedi dod â'r materion trawsbynciol mawr i'r amlwg. Yn yr un modd â'r enghraifft a nodwyd uchod ynghylch disgwyliad oes, ni fydd un neu ddau o wasanaethau yn gallu datrys y rhain, felly gellid cynnal dadansoddiad o anghenion i archwilio'r cyfraniad y gallai'r amrywiol wasanaethau ei wneud. Roedd canlyniadau'r asesiad o anghenion hefyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymdriniaeth ar sail dull cymdogaeth ar gyfer lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli er mwyn cyflawni amcanion i'r ddinas gyfan.

Cyfrannu gweithredol ar ran yr holl bartneriaid

- 2.1. Roedd y dadansoddiad o anghenion ar lefel cymdogaeth hefyd wedi darparu'r 'bachau' angenrheidiol i ddenu rhai gwasanaethau ac asiantaethau i'r bartneriaeth gan y byddai hynny wedyn yn eu helpu i ddatblygu 'eu canlyniadau'. Er enghraifft, gallai'r sector iechyd weld sut y gallai'r ffigurau ar gyfer disgwyliad oes gyfnerthu cefnogaeth i ymdriniaeth iechyd cyhoeddus sy'n cydnabod y penderfynyddion iechyd ehangach. Gwelodd yr heddlu y cysylltiadau rhwng plismona yn y gymdogaeth ac ystadegau trosedd.

"Gallai'r heddlu a'r gwasanaeth tân weld sut roedd yr amcanion ehangach yn berthnasol i'w busnes' (Uwch Reolwr GIG)

⁵ Erbyn hyn, yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd blaenorol, cyn etholiadau lleol mis Mai 2012 a'r newid yn y weinyddiaeth.


- 2.2. Er ei bod yn anos cael rhai partneriaid a phartneriaethau oedd yn bodoli eisoes i ymrwymo i'r fenter, drwy'r cyfuniad o arweiniad cryf ar lefel uwch yng nghyswllt ymwneud â'r newidiadau sydd ar droed, nad oedd yn agored i drafodaeth, ac anogaeth ar ffurf ffyrdd gwell o fynd i'r afael â materion anodd, llwyddwyd i ddwyn perswâd ar y mwyafrif o bobl. Yn yr ychydig achosion lle nad oedd hyn yn wir, daethpwyd ag unigolion cefnogol i mewn i gyfrannu at ddatblygu gwaith partneriaeth integredig a *Beth sy'n Bwysig*.
- 2.3. Er bod rhywfaint o ddiffyg dealltwriaeth a/neu wrthwynebiad ar ran rhai adrannau mewn rhai sefydliadau, roedd cynrychiolwyr allweddol o'r holl bartneriaid wedi chwarae rhan weithgar yn y broses o'r dechrau.

Tîm Partneriaeth Penodedig

- 2.1. Hyd yn oed gyda llawer o ymrwymiad ar ran y bartneriaeth, nid yw newid yn digwydd yn awtomatig, yn enwedig o gofio bod agendâu eisoes yn orlawn a bod staff sy'n gweithio yn ystod y dydd.
- 2.2. Roedd y Tîm Partneriaeth, oedd yn cynnwys pedwar o bobl ac a oedd yn cael ei arwain gan y Rheolwr Partneriaethau a Chanolbwyntio ar y Dinesydd (oedd yn adrodd i'r Prif Swyddog Corfforaethol (Cymunedau) oedd yn hyrwyddo *Beth sy'n Bwysig* ar lefel gorfforaethol) yn darparu'r seilwaith oedd yn angenrheidiol i sicrhau cynnydd.
- 2.3. Rhoddodd y tîm yr ysgogiad a'r gefnogaeth i droi'r weledigaeth ar gyfer *Beth sy'n Bwysig* yn broses weithredol. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu'r Grŵp Gweithrediadau, gyda chynrychiolwyr o bob un o'r asiantaethau partner er mwyn rhoi'r prosesau newid ar waith, a chadw mewn cysylltiad â gwleidyddion a chynrychiolwyr o'r holl asiantaethau partner i sicrhau bod pawb yn parhau i fod yn rhan o'r hyn oedd yn digwydd. Roedd rôl gyfathrebu bwysig yn rhan o hyn hefyd, gan gynnwys drafftio dogfennau a hwyluso ymgynghoriadau. Mae'r adran nesaf yn ymhelaethu ar sut y cyflawnwyd y rôl hon.

Ffyrdd newydd o weithio

- 2.1. I drawsnewid sefydliadau, rhaid wrth newid ymddygiad mewn modd cynaliadwy yn ogystal â newid strwythurau a phrosesau. Un o'r gwersi i'w dysgu o brofiad Caerdydd o waith partneriaeth integredig yw bod y tri hyn yn gysylltiedig â'i gilydd a bod yn rhaid eu rhoi ar waith o'r dechrau un. Mae angen strwythurau a phrosesau i gataleiddio'r newidiadau mewn ymddygiad a geisir, a fydd yn ei dro yn golygu y gall y rhain weithio'n effeithiol mewn system gylchol sy'n atgyfnerthu'r naill a'r llall. Fodd bynnag, ni ellir disgwyl i newid mewn ymddygiad ddigwydd yn sgil sefydlu strwythurau a phrosesau newydd yn unig – rhaid i'r rheiny sy'n arwain ac sy'n gwneud y newidiadau fodelu hynny.



- 2.2. Mae'r astudiaeth achos yn nodi rhai newidiadau allweddol yn y ffordd yr aeth y bartneriaeth ati i lunio *Beth sy'n Bwysig* – a ddylai hefyd olygu ei fod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r canlyniadau a rennir sydd wrth ei wraidd.

Cydweithio mewn iaith sy'n gyffredin

- 2.1. Mae'r iaith gyffredin yng nghyswllt canlyniadau i ddinasyddion yn helpu ac yn adlewyrchu'r dull cydweithredol mae'r bartneriaeth wedi ei ddefnyddio i drafod sut y gall gwasanaethau gwahanol gyfrannu at ganlyniadau a rennir. Mae hyn wedi helpu i chwalo rhai rhwystrau proffesiynol ac i atgyfnerthu 'pwrpas cyffredin' y bartneriaeth. Mae deall pwysigrwydd iaith wrth gyfathrebu hefyd yn golygu bod partneriaid wedi buddsoddi'r amser sy'n ofynnol i ystyried 'materion dyrys' gyda'i gilydd er mwyn canfod atebion.

“Pwynt allweddol [yn y broses] oedd defnyddio ‘iaith gyffredin’ pan mae pobl ‘yn ei deall hi’.

‘Gofynnodd y grŵp [Gweithrediadau] iddyn nhw eu hunain ‘Pwy y mae arnom ei angen i wneud hyn weithio?’ - ac yna canfod y bobl iawn o blith y sefydliadau.’

‘Rhoddodd y broses [o ddatblygu Beth sy'n Bwysig] ychydig o ‘amser i feddwl’

- 2.2. Roedd y dull cydweithredol hefyd yn golygu y gellid gwneud cynnydd drwy groesawu cyfraniadau partneriaid oedd â syniadau a safbwyntiau gwahanol. Roedd trafodaethau creadigol ac agored o'r fath yn atal pobl rhag cymryd safbwynt a bod yn amddiffynol ac yn galluogi'r bartneriaeth i wneud penderfyniadau gwybodus.

‘Roedd peidio gorfod pennu canlyniad terfynol a chyflawn wedi gweithio - roeddem yn hapus i gynnydd ddatblygu yn ei dro’

Y parodrwydd i sbarduno newid

- 2.1. I bob pwrpas, roedd cynrychiolwyr y sefydliadau partner oedd yn gysylltiedig â datblygu *Beth sy'n Bwysig* yn 'asiant newid'; fel corff ac o fewn eu sefydliadau neu eu sectorau 'eu hunain'.
- 2.2. Roedd gofyn cael yr un cydymrwymiad i'r weledigaeth a'r broses i gydweithio. Roedd hefyd angen bod yn barod i gymryd risgiau a meddu ar ynni, brwdfrydedd, cred a sgiliau cydweithio. Roedd gweithio gyda'i gilydd fel hyn hefyd yn rhoi cefnogaeth a chymhelliant y naill i'r llall.

'[Roedd Beth sy'n Bwysig yn galw am] gred, brwdfrydedd, ymrwymiad ac ynni'

'Rydym yn rhoi cefnogaeth i'n gilydd gan ei bod yn hawdd iawn teimlo'n ynysig fel 'person y bartneriaeth'

- 2.3. Roedd aelodau Bwrdd Partneriaeth Caerdydd yn barod i ysgogi a 'chaniatáu newid' yn eu sefydliadau eu hunain. Yn ei dro, roedd hyn yn golygu bod eu sefydliadau perthnasol wedi rhoi'r hawl iddyn nhw, ac aelodau eraill o staff yr oeddynt wedi'u cynnwys yn *Beth sy'n Bwysig*, eu cynrychioli ar y bartneriaeth ac ysgogi ffyrdd newydd o weithio mewn sefydliadau partner.

Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau

- 2.1. Mae cyflwyno a defnyddio atebolrwydd seiliedig ar ganlyniadau wedi helpu i ganolbwyntio ar ganlyniadau a'r ffordd orau i sicrhau'r canlyniadau hynny. Mae hyn nawr yn talu ar ei ganfed o ran rhoi *Beth sy'n Bwysig* ar waith. Mae'n debyg y byddai hyn wedi bod yn anos pe na bai Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau wedi cael ei gyflwyno'n gynnar yn y broses newid. Nid fel arf rheoli perfformiad neu fel nod ynddo'i hun yn unig y defnyddiwyd Atebolrwydd Seiliedig ar Ganlyniadau. Fe'i defnyddiwyd hefyd fel ffordd o feddwl a ffordd o drafod canlyniadau, ac mae'n defnyddio iaith gyffredin wrth ofyn cwestiynau am 'beth rydych yn ei wneud a pham' yn ogystal â 'sut mae'n gwneud gwahaniaeth'.

'Mae Atebolrwydd seiliedig ar Ganlyniadau [wedi gweithredu fel pont] rhwng y weledigaeth a'r manylion ymarferol'

- 2.2. Er y cytunir bod Atebolrwydd seiliedig ar Ganlyniadau wedi bod yn bwysig o ran cyrraedd y cam presennol yn y gwaith partneriaeth, mae rhai problemau wedi codi o safbwynt rhai sefydliadau/gwasanaethau yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflawni drwy'r drefn Atebolrwydd seiliedig ar Ganlyniadau. Mewn gwirionedd, mae rhai yn dal i ystyried mai cyfrifoldeb y tîm partneriaeth yw *Beth sy'n Bwysig*. Nid yw cyflawni yn erbyn canlyniadau *Beth sy'n Bwysig* bob amser yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb gwasanaethau ac asiantaethau perthnasol – gyda'r angen i gynnal atebolrwydd drwy'r bartneriaeth.

- 2.3. Mae'r Bwrdd Partneriaeth yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar ffurf strwythur newydd ar gyfer ei gyfarfodydd, gan ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau strategol. Mae ffrydiau gwaith, pob un ohonynt yn cael eu harwain gan reolwr uwch o sefydliad partner yn rhoi 'adroddiad ar y prif bwyntiau' i'r Bwrdd ar sail dreigl er mwyn i'r Bwrdd allu canolbwyntio ar ganlyniadau penodol a ffrydiau gwaith cyfrannol ym mhob cyfarfod.

'Dydyd ni ddim yn trio trin a thrafod gormod o bethau mewn cyfarfod [o'r Bwrdd] – nac yn manylu'n ormodol, er mwyn inni allu bod yn strategol a gwneud penderfyniadau' (Uwch Reolwr y Cyngor)

Cyfathrebu clir a hwylus

- 2.1. Mae sicrhau dealltwriaeth o Atebolrwydd seiliedig ar Ganlyniadau ar draws y sefydliadau i gyd yn un enghraifft pam fod cyfathrebu clir a hwylus wedi bod yn ffactor llwyddiant mor bwysig yng nghyswllt *Beth sy'n Bwysig*.
- 2.2. Mae gallu tîm y bartneriaeth i ysgrifennu'n dda wedi bod yn bwysig o ran cyfathrebu. Cytunir yn eang bod y tîm yn llunio dogfennau o safon uchel, sy'n meithrin hyder ac sy'n hawdd ei ddarllen, o ran cynnwys a chyflwyniad. Yn hyn o beth, roedd nifer o bartneriaid yn dweud bod y bartneriaeth wedi bod yn gweithio '*fel y sector preifat*' yn hytrach na chynhyrchu dogfennau biwrocraataidd amleiriog fel sy'n aml yn cael ei ystyried yn nodweddiadol o'r sector cyhoeddus.
- 2.3. Gellid bod wedi ymestyn y drafodaeth ynghylch y broses Beth sy'n Digwydd ymyellach, ac i'r sector gwirfoddol yn enwedig. Fodd bynnag, mae cyfaddawd rhwng cyfathrebu mwy cynhwysol, yn enwedig gydag ymgynghori helaeth, a chynnydd arafach. Ni fyddai wedi bod yn bosibl cael cefnogaeth pawb i bopeth. Fel y nodwyd uchod, roedd yn bwysig caniatáu rhywfaint o gymryd risg gydag arweiniad cryf. Os oedd angen, roedd hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau cynnydd, heb gael ein bwrw oddi ar y cledrau gan leiafrif o bobl nad oedd yn gefnogol'
- 2.4. Hefyd, gwnaed penderfyniadau ymwybodol ynghylch pa bryd i ymgynghori â'r sector gwirfoddol. Byddai wedi bod yn anodd i'r aelodau o Fwrdd Partneriaeth Caerdydd oedd yn cynrychioli'r sector i ymgynghori ar y rhannau hynny o Beth sy'n Bwysig oedd yn anebygol o ddylanwadu arnynt. Ers lansio Beth sy'n Bwysig, mae mwy o ddigwyddiadau a chyfleoedd i gael grŵp ehangach o bobl o'r sector gwirfoddol i gyfrannu at y gwaith o ddatrys problemau a dylanwadu ar benderfyniadau.

3. Beth sy'n Bwysig ar waith

- 3.1. Llunio strategaeth Beth sy'n Bwysig yw'r cam cyntaf i gyflawni canlyniadau a rennir a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl Caerdydd. Mae pawb bron sydd wedi bod yn ymwneud â'r broses hyd yma wedi pwysleisio mai'r prawf fydd rhoi'r strategaeth ar waith ac os bydd yn cael unrhyw effaith.

'Rydym eto i weld a fydd [Beth sy'n Bwysig] yn cyflawni ei nodau' (Uwch Reolwr y Cyngor)

- 3.2. Er ei bod yn rhy gynnar eto i asesu unrhyw effaith, mae arwyddion bod Beth sy'n Bwysig yn dechrau gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae pobl yn cydweithio â'i gilydd i gyflawni canlyniadau. Mae arwyddion cynnar o'i heffaith. Mae hyn yn digwydd mewn tair ffordd bwysig, fel y trafodir isod.

Beth sy'n Bwysig sy'n bwysig

- 3.1. Mae pobl ledled y cyngor a'i bartneriaid yn cytuno bod pobl yn gwybod am Beth sy'n Digwydd ac yn ei deall ac na ellir ei hanwybyddu. Cyfathrebu effeithiol ar ran y tîm partneriaeth a'r ffaith bod y staff uwch wedi bod yn arwain y ffordd drwy 'ddweud a gwneud' sydd i gyfrif am hyn i raddau helaeth.

'Mae Beth sy'n Bwysig wedi dod hynod boblogaidd – mae pobl yn siarad amdani, rydych yn clywed amdani, fe'i defnyddir fel 'llaw fer' (Aelod o'r Tîm Partneriaeth)

'Mae canlyniadau [Beth sy'n Bwysig] wedi gwella ymwybyddiaeth - wedi gwneud i bobl feddwl yn wahanol' (Uwch Swyddog y Cyngor)

- 3.2. Ymddengys hefyd y cytunir yn eang mai Beth sy'n Bwysig yw'r ffordd ymlaen, bod angen lleihau nifer y partneriaethau, y dylid seilio blaenoriaethau ar ddadansoddiad o anghenion a thystiolaeth arall, ac y dylai partneriaid weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r saith canlyniad lefel uchel.

'Mae ymagwedd Beth sy'n Bwysig yn berffaith – rhaid inni weithio gyda'n gilydd i gyflawni canlyniadau sy'n gyffredin' (Rheolwr Mudiad Gwirfoddol)

'Canlyniadau Beth sy'n Bwysig sy'n ein hysgogi ni [y cyngor] erbyn hyn' (Uwch Reolwr y Cyngor)

'Roedd gormod o bartneriaethau yn bodoli – mae angen i Fwrdd Partneriaeth Caerdydd fod yn drosfwaol i sicrhau bod pawb ar yr un dudalen o ran y negeseuon lefel uchel' (Uwch Reolwr, GIG)

Dylanwadu ar strategaethau a chynlluniau eraill

- 3.1. Mae nifer o enghreifftiau eisoes o strategaethau a chynlluniau gwasanaeth sy'n cael eu diwygio er mwyn ystyried canlyniadau Beth sy'n Bwysig.
- 3.2. Ailysgrifennwyd y Strategaeth Tai ar sail Beth sy'n Bwysig. O'r blaen roedd hon wedi'i strwythuro yn ôl ardaloedd gwasanaeth a grwpiau cymunedol oedd â budd. Bellach, y canlyniadau sydd wedi cael blaenoriaeth yn Beth sy'n Bwysig sy'n sail iddi. Mae hyn yn golygu bod Gwasanaethau Tai nawr yn rhoi sylw i faterion megis pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) drwy gael mwy o gynrychiolaeth o blith pobl ifanc ar y Ffederasiwn Tenantiaid, gan roi blaenoriaeth i anghenion pobl ifanc 16 i 17 oed sengl sy'n ddigartref, a dwyn ynghyd mentrau cyflogaeth a thai ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET. Yn ogystal, mae'r Strategaeth Tai bellach wedi mabwysiadu dull adrodd y drefn Atebolrwydd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau.
- 3.3. Mae Beth sy'n Bwysig hefyd wedi dylanwadu ar strategaethau trawsbynciol. Cydlynir y gwaith o fynd i'r afael â Thrais Domestig drwy'r Fforwm Trais Rhywiol a Domestig, a arferai adrodd i'r Gynghrair Iechyd drwy Bartneriaeth Iechyd a Lles. Teimlai Rheolwyr yn y cyngor ac yn y sector gwirfoddol bod hyn yn golygu bod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ystyried hyn yn flaenoriaeth isel, gan ei gwneud yn anos i ddylanwadu ar wasanaethau eraill megis yr heddlu, prawf a gwasanaethau plant. Gan y cytunwyd erbyn hyn bod Beth sy'n Bwysig yn flaenoriaeth (ac yn un o'r 19 ffrwd waith sy'n gyfrifol am gyflawni'r saith canlyniad), maent yn disgwyl i'r mater gael mwy o gydnabyddiaeth, ac y bydd yn haws ei gydlynu, gan yr adroddir yn uniongyrchol i Fwrdd Partneriaeth Caerdydd.

'Mae Trais Domestig yn flaenoriaeth i'r Bartneriaeth erbyn hyn, ac nid o ran Iechyd a Lles yn unig' (Uwch Swyddog y Cyngor)

- 3.4. Mae elfen cymdogaeth Beth sy'n Bwysig wedi bod yn agwedd bwysig ar y strategaeth. Mae hyn wedi helpu gwasanaethau megis Iechyd y Cyhoedd i weld manteision cydweithio mewn cymdogaethau er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chyflawni amcanion lefel uchel.

'Yr heddlu a thai oedd yn gysylltiedig â chymdogaethau i ddechrau ond erbyn hyn mae gofal sylfaenol ac Iechyd cyhoeddus wedi ymuno. Bydd cynlluniau gweithredu byw yn iach ar lefel leol wedi'u trefnu yn ôl anghenion cymdogaethau yn cysylltu â chanlyniadau Iechyd strategol' (Uwch Reolwr, GIG)

'Mae Rheoli Cymdogaeth yn ddull dilys o gyflwyno gwasanaethau lleol' (Uwch Reolwr y Cyngor)

Gwreiddio gweithio mewn partneriaeth fel y 'norm'

